**Huw Lewis AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Tachwedd 2013

Annwyl Nick,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Hydref yn holi am ragor o wybodaeth wedi'r broses graffu ar y gyllideb gan y Pwyllgor Menter a Busnes ar 17 Hydref. Rwyf wedi nodi isod yr ymateb i'r materion a godwyd gennych a'r wybodaeth ychwanegol roeddech ei hangen.

**Addysg Ôl-19 a dysgwyr sy'n fenywod**

Mai'n anodd gwybod union effaith y cynigion yn y gyllideb ar nifer y dysgwyr a'r cyrsiau gan nad cyllid Llywodraeth Cymru yw unig ffynhonnell gyllid y Sefydliadau Addysg Bellach.

Yn seiliedig ar y data diweddaraf, £558 y flwyddyn yw cost dysgwr ôl-16 ar gyfartaledd. Nifer yr oriau ar gyfartaledd ar gyfer dysgwr rhan amser yw 60 awr. Felly, heb ragdybio bod unrhyw arbedion o ran costau na ffynonellau incwm eraill, byddai'r cyllidebau is yn arwain at gynifer â 68,000 yn llai o gyfleoedd i ddysgwyr ddysgu'n rhan-amser yn 2014/15.

Bydd fy swyddogion yn cydweithio'n agos â'r sector ôl-16 i leihau effaith unrhyw ostyngiad yn y dysgu a rydym yn amcangyfrif y bydd yn cael effaith ar lawer llai o ddysgwyr.

Ar hyn o bryd nid yw'n bosib rhagweld nifer y cyrsiau yr effeithir arnynt. Er mai y dosbarthiadau bychain llai ymarferol yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu targedu, mae sefydliadau AB wedi ymateb yn dda i'r agenda drawsnewid, gan arwain at nifer o golegau cyfunol sydd â'r gallu i gynnig grwpiau mwy sy'n fwy effeithlon.

Mae monitro y ddarpariaeth ôl-16 yn elfen allweddol o'r Fframwaith Cynllunio a Chyllido newydd. Mae'r monitro, i gynnwys monitro rhyw ac oedran, i ddigwydd ar ddiwedd pob

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.huw.lewis@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

blwyddyn academaidd.  Ar hyn o bryd bydd yn bosib inni gymharu patrymau cyflenwi yn flynyddol ac os oes gwahaniaeth o ran y rhywiau, ystyried cyflwyno mesurau neu flaenoriaethau i fynd i'r afael â hyn.  Yn y cyfamser bydd fy swyddogion yn cydweithio'n agos â'r sector ôl-16 i leihau effaith unrhyw ostyngiad ar grwpiau penodol o ddysgwyr.

**Addysg sgiliau ôl-19 a phrentisiaethau i fenywod**

Mae fy swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr yn Adran yr Economi Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i benderfynu pa sectorau sy'n cael eu hystyried yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.  Bydd meysydd o flaenoriaeth megis Adeiladu a Pheirianneg yn sbarduno twf a ffyniant o fewn economi Cymru ac rydym yn gweithio i gynyddu nifer y menywod sy'n gweithio mewn Prentisiaethau o fewn y sectorau hyn.   Nid yw diwydiannau gwasanaethu fel gwallt a harddwch, manwerthu a gweinyddu busnes yn cael eu trin fel blaenoriaeth yn ein proses ddyrannu.

Wrth ystyried dyrannu cyllid penodol ar gyfer Prentisiaethau, defnyddir y blaenoriaethau canlynol:

- Y rhai hynny sydd yn dysgu, â'u dysgu i barhau i'r flwyddyn gontract newydd
- Pob newydd-ddyfodiad rhwng 16-24 mlwydd oed, heb ystyried unrhyw flaenoriaeth o ran sector
- Prentisiaethau uwch, heb ystyried blaenoriaeth y sector
- Newydd-ddyfodiaid 25+ mewn sectorau sy'n flaenoriaeth
- Newydd-ddyfodiaid 25+ mewn sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth.

Ar gyfer blwyddyn gontract 2013/14, rydym wedi cymeradwyo'r cyllid yn seiliedig ar y galw am leoedd i brentisiaid yn y cohortau 16-24 mlwydd oed, prentisiaethau uwch a'r rhai sy'n flaenoriaeth. Mae hyn wedi golygu bod y cyllid wedi'i ddyrannu'n llawn ac nad oes cynllunio ar gyfer newydd-ddyfodiaid 25 mlwydd oed nad ydynt yn flaenoriaeth.  Ar ben hyn, mae lleoedd i brentisiaid wedi'u dyrannu o'r £20 miliwn ychwanegol sy'n cael ei gyhoeddi yng Nghyllideb Derfynol 2013-14 wedi eu blaenoriaethu ar gyfer Prentisiaeth Uwch a recriwtio pobl ifanc 16-24 mlwydd oed.

Fel rhan o'n cais o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i gefnogi'r rhaglen Brentisiaethau, cyflwynodd fy swyddogion gynllun busnes i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys targedau ar gyfer cyfranogiad menywod.

Ar ben hyn, mae Estyn wedi'u comisiynu i edrych ar faterion cydraddoldeb y rhaglen Brentisiaethau, gan edrych yn benodol ar y rhwystrau posibl sy'n cael eu hwynebu gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a grwpiau anabl wrth geisio ymuno â'r rhaglenni prentisiaeth. Hefyd, rydym wedi gofyn iddynt ystyried y cydbwysedd rhwng y rhywiau ar draws y sectorau galwedigaethol. Bydd Estyn yn cyhoeddi ei adroddiad terfynol ym mis Ionawr 2015, a defnyddir hwn i lywio ein syniadau ynghylch polisïau a sut i gysylltu'n fwy effeithiol gyda grwpiau dan anfantais ac i fynd i'r afael â stereoteipio.

**Ad-drefnu addysg uwch**

O 2002 i 2011, bu Cronfa Ad-drefnu a Chydweithredu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cynorthwyo gydag ad-drefnu'r sector addysg uwch yng Nghymru er mwyn gwella perfformiad yn sylweddol a chael mwy o gystadleuaeth.

Darparwyd cyllid o £15 miliwn i gynorthwyo gyda'r broses o uno Prifysgol Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru yn 2004.  Roedd gwerthusiad annibynnol o'r broses uno a'r datblygiadau o ganlyniad i hyn tuag at yr amcanion ar gyfer y sefydliad cyfunol yn tynnu sylw at lwyddiant y broses uno, yn ogystal â'r twf mewn cyllid ar gyfer ymchwil a

ddyfarnwyd i'r Brifysgol ers yr uno. Roedd gwerthusiad annibynnol pellach o effaith yr uno yn 2010 yn edrych ar ganlyniadau yr uno a'r gwersi ar gyfer datblygiadau uno yn y dyfodol.

Darparwyd cyllid o £12.75 miliwn i gefnogi cynghrair strategol rhwng Coleg Cerdd a Drama Cymru a Phrifysgol Morgannwg, gyda'r Coleg yn dod yn is-gorff y Brifysgol yn 2007. Roedd gwerthusiad annibynnol yn edrych ar y datblygiadau tuag at amcanion y Gynghrair Strategol a gwersi ar gyfer datblygiadau uno yn y dyfodol.

Darparwyr cyllid o £14.3 miliwn i ariannu'r broses o uno Prifysgol Cymru, Llanbedr a Choleg y Drindod, Caerfyrddin yn 2010.

Mae'r adroddiadau gwerthuso ar gael ar wefan CCAUC:

http://www.hefcw.ac.uk/policy_areas/strategic_change/reconfig_collab.aspx

Yn unol ag ymrwymiad presennol y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu llai o sefydliadau AU cryfach, rydym wedi parhau i ddatblygu polisi ar gyfer ad-drefnu'r sector. Dyma'r ddwy enghraifft benodol ddiweddar sy'n cyfrannu'n sylweddol tuag at gyflawni'r ymrwymiad hwn:

Ar 11 Ebrill, unodd Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg i ffurfio Prifysgol De Cymru. Er mwyn sicrhau pontio esmwyth i'r sefydliad newydd, rydym wedi sicrhau bod cyllid newydd ar gael, drwy CCAUC, o £24.8 miliwn (refeniw a chyfalaf) dros dair mlynedd.

Ym mis Awst 2013, unodd Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant gyda Phrifysgol Fetropolitan Abertawe. Bydd £3.2 miliwn ar gael drwy CCAUC i gefnogi'r broses uno hon.

Yn ôl yr arfer sydd wedi'i sefydlu, disgwylir i unrhyw werthusiad yn y dyfodol o'r prosesau uno diweddar hyn ystyried manteision uno (yn ariannol ac mewn ffyrdd eraill) ac a oedd yr arbedion a ragwelwyd o ran effeithiolrwydd ac ail-fuddsoddi wedi'u cyflawni'n llawn.

Cofnododd gwerthusiad interim Swyddfa Archwilio Cymru o'r Gronfa Ad-drefnu a Chydweithredu yn gyffredinol yn 2009 bod CCAUC wedi rheoli'r gronfa'n dda yn gyffredinol a bod rhai sefydliadau AB yn rhan o brosiect cydweithredu llwyddiannus. Gwelodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd bod sefydliadau yn gryfach, bod ganddynt fwy o gapasiti o ran ymchwil a'u bod wedi datblygu darpariaeth addysgu ehangach o ganlyniad.

**Cronfa Ariannol wrth Gefn**

Mae copi o werthusiad Oldbell3 o Gronfeydd Ariannol wrth Gefn ar gael ar y ddolen ganlynol:

http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/EvalFlyStart7-20/?lang=cy

**Datblygu Cynaliadwy**

Cynaliadwyedd yw ein prif egwyddor drefniadol. Mae ffocws ar gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Roedd yr adolygiad o'r cyllidebau fesul llinell a gynhaliwyd gennyf i a'm swyddogion ar gyfer y gyllideb ddrafft hon yn cynnwys effaith y penderfyniadau ar gynaliadwyedd, cydraddoldeb, hawliau'r plentyn a'r iaith Gymraeg. Nid yw cynaliadwyedd yn cael ei ystyried ar ei ben ei hun ond fel rhan cyfannol o'r broses o wneud penderfyniad. Mae'n gysylltiedig â gwneud penderyfniadau ac ar yr un pryd ddeall yr effaith lawn y mae yn ei gael.

Mae cynaliadwyedd yn egwyddor sy'n cwmpasu popeth, felly nid yw'n bosib nodi penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn benodol oherwydd cynaliadwyedd. Ni fyddwn yn

disgwyl i unrhyw gynnig gael ei wneud a oedd yn cael effaith negyddol ar gynaliadwyedd. Mae'r gyllideb hon yn ymwneud â blaenoriaethu'r buddsoddiad mewn meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf positif.

Fel enghraifft, mae ein Cynllun Cyflawni Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn ystyried egwyddorion craidd datblygu cynaliadwy a gawsant eu cynnwys drwy gydol ei ddatblygiad. Mae effeithiau cymdeithasol ac economaidd clir y bydd y Cynllun yn cyfrannu tuag atynt. Bydd datblygu dull cyson ac effeithiol o ymyrraeth gynnar, cyfranogiad mewn addysg sy'n cael ei dargedu, ei gefnogi a'i gynyddu, hyfforddiant a chyflogaeth gynaliadwy yn helpu i wella lles, goresgyn problemau rhwng cenedlaethau, a sefydllu tueddiadau o ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Felly hefyd, bydd ein Rhaglen Ysgolion ar gyfer y 21ain Ganrif yn anelu at ddarparu adeiladau ysgol cynaliadwy. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod pob prosiect cyfalaf ar gyfer adeiladu ysgolion newydd yn bodloni safon 'rhagorol' Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM). Mae'r safon yn sicrhau arfer gorau mewn cynllunio cynaliadwy ac wedi dod yn ddull arferol o ddisgrifio perfformiad amgylcheddol adeilad. Bydd tri-deg-pump o brosiectau pontio yn cyflawni hyn erbyn 2014-15.

O ran mesur effaith y cynlluniau hyn mae gennym fesurau canlyniad o fewn y Rhaglen Lywodraethu sy'n cael eu cofnodi'n flynyddol. Mae'r mesurau hyn yn rhoi mesur o lwyddiant a lefelau cyrhaeddiad pobl ifanc sydd yn ei dro yn cael effaith ar eu gallu i gadw mewn gwaith a chyfrannu at yr economi ac at gymdeithas. Dyma rai ohonynt:

Canran y plant a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig neu uwch o ran dysgu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
Canlyniadau cyfnod allweddol 4 ar gyfer disgyblion 15 oed
Canran y bobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Rwy'n gobeithio bod yr ateb hwn yn ddigonol i ateb eich cwestiynau ychwanegol. Byddaf yn ymateb ar argymhelliad 5 maes o law.

Yn gywir,

**Huw Lewis AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills